OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 79 (Cy.9)

# PRIFFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd Llundain — Abergwaun (A40) (Gwelliant Heol Draw) 2004

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *15 Ionawr 2004* |
| *Yn dod i rym* | - - | *19 Chwefror 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 10 a 12 o Ddeddf Priffyrdd 1980(**1**) a phob pŵ er galluogi arall(**2**):-

**1.** Daw'r briffordd newydd y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn bwriadu ei hadeiladu ar hyd y llwybr a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn gefnffordd o'r dyddiad y daw'r Gorchymyn hwn i rym.

**2.** Dangosir llinell ganol y gefnffordd newydd â llinell ddu drom ar y plan a adneuwyd.

**3.** Bydd y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau rhesog bras ar y plan a adneuwyd yn peidio â bod yn gefnffordd, a chaiff ei ddosbarthu fel ffordd ddosbarthiadol, o'r dyddiad y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn hysbysu Cyngor Sir Powys fod gefnffordd newydd ar agor i draffig trwodd.

**4.** Yn y Gorchymyn hwn :—

(1) Mae pob mesur o bellter wedi'i fesur ar hyd llwybr y briffordd berthnasol;

(2) ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd Llundain — Abergwaun (A40);

ystyr "y gefnffordd newydd" ("*the new trunk road*") yw'r briffordd a grybwyllir yn Erthygl 1 o'r Gorchymyn hwn;

ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan a rifwyd HA10/2 NAFW 4 ac a farciwyd Gorchymyn Cefnffordd Llundain — Abergwaun (A40) (Gwelliant Heol Draw) 2004 a lofnodwyd drwy awdurdod y Gweinidog dros Ddatbygu Economaidd a Thrafnidiaeth a'i adneuo yn Uned Storio ac Adfer Cofnodion (RSRU) Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Neptune Point, Ocean Way, Caerdydd.

**5.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Chwefror 2004 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd Llundain — Abergwaun (A40) (Gwelliant Heol Draw) 2004.

(**1**) 1980 p.66.
(**2**) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, rhoddwyd y pwerau hyn bellach i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru.

Llofnodwyd ar ran y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

Llywodraeth Cynulliad Cymru
15 Ionawr 2004

*S C SHOULER*
Pennaeth yr Is-adran Gweinyddu Ffyrdd

## ATODLEN 1

### Llwybr y gefnffordd newydd

Llwybr y gefnffordd newydd yw llwybr rhwng Bwlch a Chrucywel yng nghyffiniau'r eiddo a elwir Heol Draw Cottage, ger Tretŵ r yn Sir Powys oddeutu 0.80 cilomedr o hyd gan ddechrau ar bwynt ar y gefnffordd bresennol oddeutu 200 metr i'r gogledd orllewin o ddiwedd y wal ar ochr de ddwyrain y fynedfa i'r eiddo a elwir Dan-y-Myarth gan barhau i gyfeiriad y de ddwyrain hyd at bwynt ar y gefnffordd bresennol sy'n cyd-ddigwydd â llinell ganol y fynedfa i gae Rhif 8248 gyferbyn â'r fynedfa i Westy Gliffaes.

## ATODLEN 2

### Y darn o'r gefnffordd a fydd yn peidio â bod yn gefnffordd

Y darn o'r gefnffordd a fydd yn peidio â bod yn gefnffordd yw'r darn hwnnw o'r gefnffordd a leolir rhwng pwynt oddeutu 13 metr o ddechrau'r wal/giât ar ochr de ddwyrain yr eiddo a elwir Heol Draw Cottage, ger Tretŵ r, hyd at bwynt ar y gefnffordd bresennol 26 metr o ddechrau'r wal/giât ar ochr de ddwyrain yr eiddo a elwir Heol Draw Cottage, ger Tretŵ r.